

CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

Dyddiad y Cyfarfod:	18 Mehefin 2024
Teitl yr Eitem:	Drafft o adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.
Swyddog Cyswllt:	Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

1. PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ystyried yr adroddiad a'i gynnwys a'i argymhell i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn unol a'r gofyn.

2. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?

- Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn yn flynyddol yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr.
- Yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:
 - Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
 - Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl,
 - Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.
- Mae adroddiad blynyddol eleni yn un cryno ac yn canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau. Yn ogystal mae'n amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2.4 Dymunaf ddiolch i chi aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eich sylwadau adeiladol yn ystod ein cyfarfodydd dros y flwyddyn. Mae nifer o dimau yn fy nghynorthwyo i ddarparu'r gefnogaeth orau bosib i chi, a dymunaf ddiolch i bawb am eu gwaith, ond rwyf am ddiolch yn benodol i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, sef eich prif gyswllt dydd i ddydd, i Catrin Love a'r tîm dysgu a datblygu, a'r holl swyddogion eraill sy'n cynorthwyo i'ch cefnogi yn eich rôl. Edrychaf ymlaen at gyd-weithio gyda chi gyd i'r dyfodol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach.